Ysgol Pant-Y-Rhedyn
Ffordd Penmaenmawr
Llanfairfechan
Conwy
LL33 0PA

12/02/2025

Annwyl Matthew Jones

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Pant-Y-Rhedyn yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'u harolygiad craidd ym mis Hydref 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion a siarad â disgyblion, staff ac arweinwyr.

**Ffocws yr ymweliad**

**Darparu lefel addas o her yn gyson ar gyfer disgyblion mewn gwersi**

- Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr a staff wedi cyflawni ystod o ddeilliannau addas i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae'r holl staff wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol sy'n dechrau dylanwadu'n briodol ar gynnydd yr ysgol yn erbyn yr argymhelliad.
- Mae athrawon yn gosod nodau dilys ar gyfer dysgu disgyblion. Ar adegau, maent yn amrywio'r rhain yn bwrpasol i ymateb i'r hyn y mae disgyblion eisoes yn ei wybod.
- Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio asesiadau'n barhaus i nodi camau datblygu unigol ar gyfer dysgu a datblygiad disgyblion.
- Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddewis pa heriau a thasgau i'w chwblhau yn annibynnol. Maent yn rhoi cyfleoedd amserol i

ddisgyblion ystyried ansawdd gwaith eu hunain, ac ar adegau priodol, gwaith disgyblion eraill.
- Yn ystod sesiynau rhifedd, mae athrawon yn cyflwyno tasgau bwriadus sy'n sicrhau her addas i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu hyn ymhellach yn y sesiynau llythrennedd i sicrhau fod disgyblion yn gwneud cynnydd cynaledig.

**Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso medrau siarad Cymraeg**

- Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn gwbl naturiol wrth ddechrau yn yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae cyflenwad defnyddiol a chyson o adnoddau ieithyddol ar y waliau dysgu. Mae'r rhain yn dechrau cynorthwyo disgyblion i gaffael a chyfoethogi eu medrau llafar Cymraeg yn addas ar gyfer themâu penodol.
- Mae llawer o'r staff yn arddel iaith raenus ac yn manteisio ar gyfleoedd cyson i gyflwyno geirfa newydd a phatrymau iaith i'r disgyblion. Maent yn defnyddio dulliau holi yn briodol ac yn annog disgyblion i ymestyn eu hymatebion yn y Gymraeg. At ei gilydd, mae arweinwyr a staff yn cynllunio'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn fwriadus drwy ystod briodol o weithgareddau ffurfiol ac anffurfiol.
- Mae gan arweinwyr ddyheadau clir ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg disgyblion. Ym Mlynyddoedd 3 a 4, mae defnydd cyson o gynlluniau pwrpasol i gefnogi medrau llafar Cymraeg disgyblion yn dechrau cael effaith priodol ar eu hyder wrth gaffael yr iaith mewn gwahanol gyd destunau.
- Erbyn brig yr ysgol, mae gan ddisgyblion afael addas ar batrymau iaith benodol. Maent yn cymhwyso'r Gymraeg yn bwrpasol wrth drafod pynciau a chyflwyno gwybodaeth syml, er enghraifft wrth drafod y tywydd yng ngwahanol ardaloedd yng Nghymru. Er hyn, nid yw lleiafrif y disgyblion yn magu digon o hyder i drafod eu dysgu gyda'i gilydd ac oedolion yn ddigymell mewn ystod o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.
- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gael i staff ac maent yn cydweithio'n briodol gydag athrawon arbenigol i rannu syniadau ac i gynorthwyo ei gilydd. Yn ogystal, caiff staff gyfleoedd gwerthfawr i fynychu cwrs sabothol er mwyn datblygu eu medrau Cymraeg a'u hyder, sydd yn ei dro, yn fuddsoddiad defnyddiol i'r ysgol wrth gefnogi medrau llafar y disgyblion.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6622115

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol